

Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

Cylch Gorchwyl

Gweledigaeth

“Sicrhau cynnydd o ran swyddi, twf a'r economi ehangach yn rhanbarth Gorllewin Cymru.”

Sail resymegol y Bartneriaeth

Ar draws y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat yng Nghanolbarth Cymru, rydym yn cydnabod yr angen i ddatblygu consensws ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer ein rhanbarth, ac wrth rannu ein gweledigaeth i sicrhau cynnydd o ran swyddi, twf a'r economi leol. Mae angen i ni sicrhau mwy o effaith a chanlyniadau gwell wrth gydweithio ar draws y rhanbarth, gan ddefnyddio adnoddau cyhoeddus sy'n lleihau.

Bydd Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn darparu arweinyddiaeth ranbarthol am ein gweledigaeth a bydd yn fecanwaith 'cyffyrddiad ysgafn' effeithiol a fydd yn craffu, yn herio, yn nodi cyfleoedd a diffygion ac felly, yn ysgogi ac yn cynnig ymyriadau er mwyn cyflawni mwy o ganlyniadau a chanlyniadau gwell ar gyfer ein rhanbarth.

Gwerthoedd y Bartneriaeth

Gweithio mewn partneriaeth a pharch rhwng pawb

Rydym yn dymuno gweithio mewn ffyrdd sy'n cydnabod ymrwymadau eraill ein haelodau, ond a fydd yn meithrin ac yn gwerthfawrogi gwir bartneriaeth a gweledigaeth a rennir. Rydym yn gwybod nad oes un rysâit syml ar gyfer hyn. Rydym yn cydnabod y bydd y partneriaid a'r rhanddeiliaid y gallant gyfrannu at neu ymgysylltu ag unrhyw weithgarwch penodol yn amrywio, gan ddibynnu ar natur y gweithgarwch hwnnw.

Sicrhau mwy o ganlyniadau a chanlyniadau gwell ar draws y rhanbarth

1. Ein gweledigaeth ar gyfer cynigion sy'n dod i'r amlwg yw cysylltu ac ychwanegu gwerth i fuddsoddiadau ehangach a gynigir yng Nghanolbarth Cymru, ac y bydd cynigion pellach yn dod i'r amlwg trwy ein partneriaeth, y byddant yn ychwanegu gwerth.
2. Ystyriwn bod y Bartneriaeth yn helpu rhanddeiliaid i gyflawni ymyriadau yng Nghanolbarth Cymru sy'n cefnogi'r ddwy ochr, sy'n cael eu datblygu'n well ac felly, sy'n fwy tebygol o gyflawni cynlluniau y cytunwyd arnynt.
3. Mae angen i ni ganolbwyntio ar yr hyn sy'n newydd yn ein gweledigaeth, gan gynnwys gwaredu rhwystrau sy'n atal cydweithio a hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ar draws sectorau ac integreiddio dulliau gweithredu er mwyn cyflawni canlyniadau gwell.

Rôl a Chyfrifoldebau

4. Bydd **Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru** yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer cydweithio a gweithio ar y cyd er mwyn sicrhau cynnydd o ran swyddi a thwf a'r economi ehangach yn rhanbarth Canolbarth Cymru
5. Byddwn yn annog ymgysylltu a rhyngweithio rhwng busnesau, addysg bellach ac uwch, a sefydliadau o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat a grwpiau cynrychioliadol.
6. Byddwn yn nodi themâu a sectorau allweddol, a blaenoriaethau sy'n cefnogi arloesi, menter a buddsoddiad a arweinir gan fusnesau yng Nghanolbarth Cymru.
7. Rydym yn ceisio sicrhau integreiddio ehangach, gwaith ar y cyd a gwaith trawsnewidiol gyda phartneriaid, sefydliadau a'r gymuned fusnes er mwyn sicrhau canlyniadau gwell a gwella lles preswylwyr y rhanbarth.
8. O bryd i'w gilydd, byddwn yn adrodd i Weinidogion Llywodraeth Cymru am y ffordd y rhoddir sylw i ofynion strategaethau, polisiau a blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar lefel ranbarthol ac am y canlyniadau a gyflawnwyd yn y rhanbarth.
9. Byddwn yn penodi sefydliad arweiniol priodol i gyflawni rôl ysgrifenyddiaeth y Bartneriaeth.
10. Byddwn yn gweithredu trefniadau cyfarfod effeithiol a systemau er mwyn adrodd i'r Bartneriaeth, gan gynnwys grŵp(grwpiau) ffrwd gwaith ac atodol er mwyn ein helpu i roi sylw i'n gweledigaeth.
11. Bydd y Bartneriaeth yn hyrwyddo cydlyniad wrth weinyddu a gweithredu ei chyfarfodydd a'i chamau gweithredu, gan ystyried yn llawn fuddiannau grwpiau nodweddig gwarchoddedig ac wedi'u hallgau a grwpiau dan anfantais gymdeithasol wrth wneud hynny.

Aelodaeth

12. Bydd y Bartneriaeth yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau a bydd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r sectorau canlynol:
 - Y sector preifat a phartneriaid cymdeithasol eraill
 - Y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol
 - Y sector cyhoeddus a'r sector statudol

Cynrychiolir y sefydliadau canlynol yn y Bartneriaeth:

Llywodraeth Cymru

Cyngor Sir Ceredigion

Cyngor Sir Powys

Trafnidiaeth Canolbarth Cymru

Ffederasiwn Busnesau Bach

Undeb Amaethwyr Cymru

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru

Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru

Cydweithrediad Iechyd Canolbarth Cymru

Fforwm Economaidd Canolbarth Cymru

Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru

Ardaloedd Twf Lleol Powys;

Ardal Twf Lleol Dyffryn Teifi

Bwrdd Rhaglen Cymunedau Cryfach (Powys)

Dyfodol Cynaliadwy – Partneriaeth Adfywio Ceredigion

Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol ar gyfer De Orllewin a Chanolbarth Cymru

Prifysgol Aberystwyth

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Coleg Ceredigion

Grŵp NPTC: Campws Bannau Brycheiniog / Campws Y Drenewydd

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys

Aelodau

13. Gall pob sector neu sefydliad sy'n aelod unigol o'r Bartneriaeth enwebu cynrychiolydd i'r Bartneriaeth. Bydd cynrychiolwyr yn y Bartneriaeth yn cyflwyno buddiannau eu sectorau neu eu sefydliad, a byddant yn gyfrifol am gyfathrebu gyda'r sefydliad neu'r grŵp neu'r sector hwnnw am faterion sy'n codi.

14. Enwebir y cynrychiolydd gan y sector neu'r sefydliadau hwnnw sy'n aelod, a byddant yn atebol iddynt. Disgwylir i'r cynrychiolydd fynychu cyfarfodydd y Bartneriaeth ac efallai y gofynnir iddynt gynrychioli'r Bartneriaeth mewn cyfarfodydd eraill. Dylai'r cynrychiolydd gyflwyno adroddiad am waith y Bartneriaeth i'r sector neu'r sefydliad hwnnw sy'n aelod o leiaf unwaith y flwyddyn.
15. Mewn amgylchiadau eithriadol sy'n atal y cynrychiolydd rhag mynychu cyfarfod, gall cynrychiolydd amgen fynychu'r cyfarfod hwnnw yn lle'r cynrychiolydd. Dylid hysbysu'r Ysgrifenyddiaeth (paragraff 26 isod) cyn y cyfarfod. Dylid briffio'r dirprwy yn llawn, gan sicrhau bod y cynrychiolydd yn ymwybodol o ganlyniad y cyfarfod a'u bod yn gallu cyflawni eu rôl fel y nodir ym mharagraffau 13 ac 14 uchod.
16. Bydd pob cynrychiolydd a dirprwy yn cyfrannu at y Bartneriaeth yn unol ag egwyddorion "Nolan" sef anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth
17. Fel arfer, penodir cynrychiolwyr i'r Bartneriaeth am isafswm o 12 mis. Gellir ail-benodi cynrychiolwyr.
18. Adolygir aelodaeth y Bartneriaeth o bryd i'w gilydd.
19. Bydd Aelodaeth o'r Bartneriaeth yn dod i ben:
 - Os bydd y sefydliad yn cael ei ddiddymu neu ei derfynu;
 - Os bydd y sefydliad a gynrychiolir yn y Bartneriaeth neu'r cynrychiolydd unigol yn ymddiswyddo yn ysgrifenedig.
20. Os bydd cynrychiolydd yn ymddiswyddo neu'n gadael sefydliad sy'n aelod fel arall, ni fydd ef neu hi yn gynrychiolydd mwyach a gall y sefydliad neu'r sector sy'n aelod benodi cynrychiolydd(cynrychiolwyr) arall(eraill).
21. Bydd gan y Bartneriaeth y grym i derfynu aelodaeth unrhyw unigolyn neu sefydliad am reswm da ar yr amod y bydd gan yr unigolyn neu'r sefydliad dan sylw yr hawl i gael eu clywed gan gyfarfod llawn o'r Bartneriaeth cyn y caiff penderfyniad terfynol ei wneud.

Gwybodaeth arbenigol

22. Gall y Cadeirydd wahodd sefydliadau na chânt eu cynrychioli fel arall yn y Bartneriaeth, ond y mae ganddynt wybodaeth arbenigol neu fuddiannau sy'n berthnasol i waith y Bartneriaeth, i fynychu a siarad, ond ni fydd ganddynt unrhyw rôl ym mhroses y Bartneriaeth o wneud penderfyniadau.

Cynghorwyr i'r Bartneriaeth

23. O bryd i'w gilydd, gall y Bartneriaeth benodi cynghorwyr er mwyn ei chynorthwyo i gyflawni ei rôl. Mae gan gynghorwyr rôl pwysig wrth gynorthwyo'r Bartneriaeth wrth

sicrhau y gellir cynnal cysylltiadau priodol gyda grwpiau a buddiannau eraill. Gall cynghorwyr annerch cyfarfodydd y Bartneriaeth, os bydd y Cadeirydd yn estyn gwahoddiad iddynt wneud hynny, ond ni fydd ganddynt unrhyw rôl ym mhroses y Bartneriaeth o wneud penderfyniadau.

Rheolaeth a chyfarfodydd y Bartneriaeth

24. Caiff polisi a rheolaeth gyffredinol materion y Bartneriaeth eu pennu gan y Bartneriaeth, a fydd yn cyfarfod heb fod yn llai na thair gwaith y flwyddyn.
25. Cadeirir y Bartneriaeth gan Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion neu Bowys.
26. Darparir ysgrifenyddiaeth gan Gyngor Sir Ceredigion neu Bowys
27. Cworwm y Bartneriaeth fydd un rhan o dair o'r aelodau, a'r cworwm ar gyfer unrhyw grŵp atodol neu ffrwd waith y Bartneriaeth fydd un rhan o dair o'r rhai a wahoddyd i fod yn bresennol, neu dri, pa un bynnag yw'r lleiaf.
28. Yn absenoldeb y Cadeirydd mewn unrhyw gyfarfod o'r Bartneriaeth ac ar yr amod bod y cyfarfod â chworwm, gall yr aelodau sy'n bresennol ethol cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw.
29. Dosbarthir papurau ar gyfer yr agenda o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Bartneriaeth.
30. Pan fydd gan aelod, sefydliad neu gynrychiolydd fudd a fyddai'n niweidio eu gallu i gymryd rhan yn y drafodaeth am fater penodol mewn ffordd ddiuedd, neu y byddai'n ymddangos fel pe bai'n niweidio eu gallu i gymryd rhan yn y drafodaeth am fater penodol mewn ffordd ddiuedd, bydd gofyn iddynt ddatgelu natur y budd sydd ganddynt ynghylch eitem benodol ar yr agenda cyn i'r drafodaeth am yr eitem honno gychwyn. Ni ddylent aros yn yr ystafell tra bod y mater dan sylw yn cael ei drafod. Cofnodir holl ddatganiadau budd ariannol ac anariannol yng nghofnodion y cyfarfod.
31. Bydd y Bartneriaeth ac unrhyw grŵp atodol yn gweithredu ar sail consensws. Os bydd anghytundeb, bydd y Cadeirydd yn ceisio datrys unrhyw wahaniaethau sy'n codi yn y Bartneriaeth gan ddefnyddio dulliau priodol.
32. Nid yw Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn endid cyfreithiol nac yn gorff corfforaethol ar wahân, felly ni fydd angen i bob sefydliad partner gytuno'n ffurfiol ar y penderfyniadau a wneir. Ni fydd penderfyniadau a wneir gan y Bartneriaeth yn rhai rhwymol ar unigolion a sefydliadau partner, sy'n caniatáu i sefydliadau gynnal eu cyfrifoldebau a'u gweithredu annibynnol.

Statws ieithyddol

33. Bydd gan y Gymraeg a'r Saesneg yr un statws a dilysrwydd yn holl drafodion ysgrifenedig a llafar y Bartneriaeth.

Cynrychiolaeth mewn cyrff a grwpiau eraill

34. Gall y Bartneriaeth benodi cynrychiolwyr i gyrff a chyfarfodydd eraill. Gall y Bartneriaeth benodi sefydliad sy'n aelod neu gynrychiolydd(cynrychiolwyr) o'r sector sydd fwyaf priodol ar gyfer y rôl. Gwneir penodiadau gan y Bartneriaeth yn dilyn ymgynghoriad a phryd bynnag y bo modd, gan gonsensws, ac fe'u hadolygir bob blwyddyn.

Gweithredu mewn ffordd Agored a Chyfathrebu

35. Byddwn yn cyhoeddi manylion gweithgareddau'r Bartneriaeth, gan esbonio ein safbwyntiau a'n penderfyniadau. Byddwn yn cyfyngu ar y wybodaeth dim ond pan fydd y budd ehangach i'r cyhoedd yn mynnu hynny mewn ffordd glir.
36. Caiff yr holl gyfathrebu rhwng y Bartneriaeth a thrydydd partion ei wneud trwy'r Cadeirydd yn uniongyrchol, neu caiff ei gymeradwyo gan y Cadeirydd.

Sefydlu grwpiau atodol

37. Gall y Bartneriaeth sefydlu grwpiau atodol er mwyn cyflawni tasgau neu roi sylw i ffrydiau gwaith. Gallai grwpiau atodol gynnwys cynrychiolwyr sy'n cynnwys cymysgedd o sgiliau a phrofiad sy'n briodol i'r dasg honno. Ni fydd grwpiau atodol yn gwneud penderfyniadau ac fel arfer, byddant yn cyflawni tasgau trwy wneud argymhellion priodol i'r Bartneriaeth, yn unol â'r Cylch Gorchwyl hwn.

Sefyllfaoedd eithriadol

38. Ni fydd y Cylch Gorchwyl hwn yn cynnig canllawiau ar gyfer pob sefyllfa a allai godi. Mewn achosion o'r fath, bydd Cadeirydd y cyfarfod yn penderfynu ar y weithdrefn i'w dilyn er mwyn cydymffurfio â'r Cylch Gorchwyl hwn.

Newidiadau i'r Cylch Gorchwyl hwn

39. Gall y Cylch Gorchwyl gael ei ddiwygio gan fwyafrif o ddwy rhan o dair o'r pleidleisiau a wneir mewn cyfarfod o'r Bartneriaeth, ond rhaid rhoi rhybudd clir o 14 diwrnod i aelodau o'r diwygiad(au) arfaethedig, ac ni fydd unrhyw ddiwygiad yn ddilys pe byddai'n newid amcanion a chyfrifoldebau'r Bartneriaeth mewn ffordd sylfaenol.